



Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad yr ymweliad
Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol**

**Ysgol Ardudwy
Ffordd y Traeth
Harlech
Gwynedd
LL46 2UH**

Dyddiad yr ymweliad: Medi 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ⓜ **Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Y tîm monitro

Ray Owen	Arolygydd Cofnodol
Gareth Wyn Jones	Arolygydd Tîm
Kevin Adams	Arolygydd Tîm

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Ardudwy wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Argymhelliad 1: Codi safonau a gwella perfformiad mewn Saesneg a'r rhan fwyaf o'r pynciau sylfaen sydd yn is na'r safon mewn ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 3

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers amser yr arolygiad craidd, mae safonau cyfnod allweddol 3 yn parhau i ddangos tueddiad o welliant ac mae perfformiad 2013, ar Lefel 5+ a Lefel 6+, yn rhoi'r ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg ym mhob pwnc craidd a phwnc sylfaen. Yn 2013, mae'r dangosydd pynciau craidd yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr Awdurdod Lleol, a Chymru, ac yn dangos gwelliant sylweddol dros bedair blynedd. Mae perfformiad Lefel 5+ yn Saesneg wedi codi yn sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'r ysgol wedi symud o chwarter 4 yn 2010 i'r chwarter uchaf eleni. Yn ogystal yn y dangosydd hyn, mae perfformiad Lefel 6+ a Lefel 7+ yn y chwarter uchaf yn 2013.

Bellach, mae gan yr ysgol drefniadau mwy effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu targedau ar draws y pynciau, yn enwedig y rhai sy'n tangyflawni. Hefyd, er i'r data ddangos bod y bwlch rhwng y bechgyn a'r merched yn lleihau, mae'r ysgol yn parhau i ffocysu'n drylwyr ar berfformiad y bechgyn yng nghyfnod allweddol 3. Mae system fwy trylwyr o graffu ar lyfrau gwaith y disgyblion 'nawr yn rhan o arfer gyson pob athro. Er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gwella eu medrau sillafu, ysgrifennu a darllen, mae sesiynau ychwanegol yn eu lle ar yr amserlen. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion yn dangos bod safon sillafu, atalnodi, gramadeg a geirfa yn dda ac mae llawer o dystiolaeth o ysgrifennu estynedig mewn amryw o'r pynciau.

Argymhelliad 2: Codi safonau a gwella perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4 a gwella'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf, a hefyd ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad disgyblion yn y prif ddangosyddion wedi cynyddu yn dda. Nid yw canlyniadau TGAU 2013 wedi eu gwirio.

Mewn Saesneg, lefel 2, gwelwyd cynnydd o 44.2% A*-C yn 2011 i 75% A*-C yn 2013. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o

ran prydau ysgol am ddim. Mewn mathemateg lefel 2, gwelwyd cynnydd sylweddol o 32.7% A*-C yn 2011 i 66.7% A*-C yn 2013 sy'n gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yng ngwyddoniaeth lefel 2, gwelwyd cynnydd da iawn o 46.2% A*-C yn 2011 i 87% A*-C yn 2013. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn y dangosyddion hynny, sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg lefel 2, gwelwyd cynnydd o 30.8% A*-C yn 2011 i 61% A*-C yn 2013. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r gwelliannau yn sylweddol ac yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol a Chymru ym mhob un o'r dangosyddion hyn.

Mae'r ysgol wedi gweithredu'n llwyddiannus ar nifer o faterion gan gynnwys apwyntio penaethiaid adran newydd i'r tair adran. Trefnwyd dosbarthiadau ychwanegol mewn mathemateg i adolygu gwaith TGAU a sefydlwyd rhaglen ymyrraeth darllen yn Saesneg. Mewn ngwyddoniaeth mae pwyslais llwyddiannus ar addysgu a dysgu effeithiol a dogfennaeth o ansawdd da. Mae'r gwersi a arsylwyd, gwaith disgyblion yn eu llyfrau, a barn disgyblion y Cyngor Ysgol, yn cadarnhau effaith gadarnhaol y datblygiadau hyn ar addysgu a safonau.

Mae perfformiad mewn Cymraeg, ers 2011, wedi amrywio ond yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae cryn wahaniaeth yn 2013 rhwng perfformiad bechgyn a merched o 30% yn y dangosydd A*-C gyda bechgyn yn tanberfformio. Hwn yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y pynciau craidd.

Argymhelliad 3: Gwella'r ddarpariaeth a'r cynnydd a wna'r disgyblion yn y medrau gan ganolbwyntio'n benodol ar lythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau priodol er mwyn gwella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi ym mhob pwnc erbyn hyn yn nodi cyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygu'r medrau. Serch hyn, ceir anghysondeb rhwng y pynciau o ran y graddau, mae cynlluniau'n nodi'r agweddau penodol o'r medrau y bwriedir eu datblygu. Mae'r ysgol wedi trefnu sesiynau hyfforddiant perthnasol i athrawon ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Hefyd, mae wedi cynnal arsylwadau gwersi yn ffocysu ar lythrennedd a defnyddio canfyddiadau'r broses hon fel sail i arweiniad pellach ar gyfer athrawon. Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella medrau darllen, sillafu a rhif y disgyblion hynny sydd ar lefelau isel wrth ddechrau yn yr ysgol.

Fel canlyniad i'r cynllunio hwn, derbynia'r disgyblion ystod o gyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae pob pwnc yn cyfrannu at ddatblygiad llythrennedd, gan gynnwys cyflwyno ystod briodol o dasgau ysgrifennu estynedig. Mae cynllunio ar gyfer datblygu rhifedd disgyblion ar draws y pynciau wedi dechrau'n fwy diweddar ond yn datblygu'n briodol. Unwaith eto, mae peth anghysondeb yn arfer adrannau ac athrawon gwahanol.

Mae medrau llythrennedd disgyblion yn gyffredinol dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrandao'n ofalus ar eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion, gan ymateb yn

briodol. Maen nhw'n cyfathrebu'n eglur wrth ateb cwestiynau mewn gwersi, a'r mwyafrif yn defnyddio geirfa bynciol yn hyderus. Mae gan ddisgyblion fedrau darllen priodol i'w galluogi nhw i gyflawni ystod o dasgau'n llwyddiannus. Mae gwaith ysgrifenedig, gan gynnwys tasgau ysgrifennu estynedig, yn gyffredinol dda er bod gwallau sillafu, gramadeg neu dreiglo yn dal i amharu ar waith llawer o ddisgyblion ar brydiau.

Mae'r gwelliant yn safon medrau disgyblion yn cael ei adlewyrchu mewn canlyniadau profion ac asesiadau athrawon. Mae perfformiad CA3 mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf fel bod yr ysgol yn y chwarterl uchaf yn 2013 o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae data'r ysgol yn dangos gwelliant da ym medrau llawer o ddisgyblion dros CA3, yn enwedig y rhai sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol gan yr ysgol. Yn 2013 hefyd, enillodd cyfrannau uchel o ddisgyblion Blwyddyn 11 gymwysterau ar lefel 2 mewn cyfathrebu a rhifedd.

Argymhelliad 4: Codi safonau'r addysgu o ddigonol i dda neu well gan gynnwys arsylwi gwersi a monitro ansawdd

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae safon yr addysgu yn dda neu'n well mewn llawer o'r gwersi a arsylwyd yn ystod yr ymweliad. Gwelwyd nodweddion rhagorol mewn rhai gwersi, er enghraifft cynllunio manwl iawn, tasgau heriol, defnydd effeithiol o ddeunyddiau dysgu a sylw agos at ddatblygiad a chynnydd pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthynas waith dda, yn cynllunio'n briodol, yn egluro pwrpas y gwaith yn effeithiol ac yn defnyddio ystod briodol o ddulliau addysgu a deunyddiau.

Mae'r addysgu ychydig yn llai effeithiol mewn rhai gwersi, gan amlaf gwersi athrawon dros dro neu athrawon newydd gymhwyso. Er bod nodweddion da yn y gwersi hyn, yn gyffredinol nid oes digon o gyflymder i sicrhau cynnydd da na digon o ddefnydd o strategaethau i sicrhau bod disgyblion o wahanol galluoedd yn cyflawni safonau priodol.

Ers yr arolygiad yn 2012 mae'r ysgol wedi datblygu nifer o strategaethau addas er mwyn gwella ansawdd yr addysgu. Mae grŵp o athrawon a disgyblion wedi cydweithio i gytuno ar nodweddion gwrs dda ac wedi rhannu eu canfyddiadau gyda'r athrawon i gyd. Mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer arsylwi gwersi. Mae pob athro erbyn hyn yn cael ei arsylwi yn dymhorol ac mae pob un hefyd yn cael cyfleoedd i arsylwi athrawon eraill. Mae arsylwadau ar y cyd, gyda'r pennaeth, y dirprwy bennaeth neu arbenigwr allanol, wedi helpu i ddatblygu medrau arsylwi'r athrawon. Lle gwelir addysgu digonol, mae'r ysgol yn trefnu cymorth priodol ar gyfer athrawon, er enghraifft trwy eu paru gydag athro arall yn yr ysgol neu drefnu iddynt gydweithio gydag athro mewn ysgol arall.

Argymhelliad 5: Gwella cysondeb ac ansawdd y marcio ar draws yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae ansawdd y marcio yn dda ar y cyfan gyda gwell cysondeb yn ansawdd a manylder y cywiriadau a sylwadau athrawon ar draws yr ysgol. Datblygwyd polisi

marcio newydd gyda staff sydd yn ddogfen ddefnyddiol i sicrhau cydymffurfiaeth rhwng athrawon yn eu hymarfer. Rhwir pwyslais da a manwl ar gywiro gwallau sillafu a gramadeg, ac mae hyn yn nodwedd amlwg o fewn dosbarthiadau Saesneg a Chymraeg.

Cyflwynir cyfleoedd cyson i'r disgyblion hunanasesu, ac i asesu gwaith eu cyfoedion, gan ddefnyddio meini prawf perthnasol mewn tua hanner y pynciau. Yn y pynciau hyn, mae'r disgyblion yn aml yn datblygu'r meini prawf effeithiol eu hunain mewn trafodaeth gyda'u hathrawon. Mae'r arfer hon yn cryfhau eu hymwybyddiaeth o sut i wella eu gwaith yn dda.

Ers yr arolygiad craidd, mae ansawdd sylwadau athrawon ar waith y disgyblion yn fwy perthnasol, a cheir cyfarwyddyd cliriach i'r disgyblion ar sut i wella eu gwaith yn y mwyafrif o'r llyfrau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r disgyblion yn cywiro neu ailddrafftio eu gwaith yn ddigonol mewn dilyniant i sylwadau athrawon.

Mae rheolwyr ar bob lefel yn craffu ar ansawdd y marcio mewn llyfrau gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn fwy achlysurol. Mae'r llywodraethwyr hefyd yn rhan o'r broses lwyddiannus hon. Mae'r adroddiadau manwl sydd yn crynhoi canfyddiadau'r craffu llyfrau yn ddefnyddiol. Trefnwyd cyfarfodydd defnyddiol, rhwng adrannau o fewn yr ysgol, er mwyn cefnogi athrawon mewn adrannau bach, ac i safoni gwaith a chodi disgwyliadau.

Mae gweithdrefn asesu yng nghyfnod allweddol 3 yn hyrwyddo cynnydd trwy gyflwyno darlun mwy cynhwysfawr o gynnydd pob plentyn.

Mae'r ysgol yn gweithredu system ar gyfer tracio cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Er hyn, nid yw'r athrawon wedi datblygu'r system dracio i ddadansoddi amrywiaeth mewn perfformiad bechgyn a merched yn ddigon trylwyr hyd yn hyn, er mwyn darparu rhaglen ymyrraeth.

Argymhelliad 6: Cryfhau rôl ac atebolrwydd rheolwyr canol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi trefnu systemau newydd er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r rheolwyr canol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad y penaethiaid adran. Mae penaethiaid adrannau craidd yn cyfarfod gydag aelod cyswllt yr uwch dîm pob pythefnos a'r penaethiaid pwnc sylfaen yn cyfarfod pob mis. Fel canlyniad, mae mwy o atebolrwydd gan y rheolwyr canol ac maent wedi cael eu uwch sgilio er mwyn arsylwi gwersi a craffu ar waith disgyblion yn fwy effeithiol. Mae'r rheolwyr canol yn cydweithio yn effeithiol er mwy rhannu arfer orau, ac mae'r cyswllt gyda ysgol arall gyfagos yn rhoi cyfleoedd da iddynt ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o sut i wella safonau.

Mae'r trefniadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion ar draws y pynciau, fel y gwelir yng nghanlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 3 ac arholiadau cyfnod allweddol 4 yn 2013. Mae'r systemau monitro cynnydd wedi ffurfioli mwy ac mae'r rheolwyr canol yn defnyddio data yn well, ac maent yn llawer mwy cyfarwydd â'r disgwyliadau ar draws y pynciau. Bellach, mae'r penaethiaid

adran yn ffocysu yn fwy effeithiol ar y disgyblion sydd yn tangyflawni a'r angen i leihau y gwahaniaeth rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched. Fodd bynnag, mae materion i'w gwella yn parhau mewn ychydig o adrannau, er enghraifft, bod yn fwy miniog gyda cynllunio ar gyfer gwelliannau pellach.

Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.